# Y Fframwaith hunan-adolygu

## Elfen 8 (Canllawiau)

# Effaith ar ganlyniadau disgyblion

Mae'r canllaw yma i'r fframwaith hunan-adolygu yn cynnwys yr holl ddatganiadau y byddwch yn barnu eich ysgol yn eu herbyn ar gyfer Elfen 8. Mae hefyd yn cynnwys cwestiynau ac yn awgrymu ffynonellau o dystiolaeth y gallwch eu hystyried fel cefnogaeth i'ch barnau. Mae fersiwn arall o'r ddogfen hon ar gael ar ffurf ffeil Word, lle mae'r adran gwestiynau wedi ei gyfnewid am ffrâm destun ar gyfer cofnodi eich tystiolaeth eich hunan. Efallai yr hoffech ddefnyddio'r ddogfen honno cyn bwydo'r wybodaeth i mewn i'r system ar-lein, ond mae'n hanfodol eich bod yn cwblhau'r hunan-adolygiad ar-lein cyn gwneud cais i gael eich asesu ar gyfer y Marc TGCh.

Gellir defnyddio'r canllaw yma i'r fframwaith hunan-adolygu ochr yn ochr â'r disgrifiadau lefel yn Elfen 8 gan Becta i'ch helpu i wneud penderfyniad ynglŷn â'ch sefyllfa yn natblygiad TGCh ar gyfer yr elfen 'Effaith ar ganlyniadau disgyblion'.

Mae Becta yn argymell yn gryf y dylech ddefnyddio'r offer hunan-adolygu ar-lein yn hytrach na'r fersiwn papur.

Ionawr 2009

## Elfen 8 - Effaith ar ganlyniadau disgyblion

### 8a Cynnydd disgyblion mewn gallu TGCh

Mae'r llinyn hwn yn ymwneud â'r cynnydd a wna disgyblion mewn medr TGCh. (Mae medr TGCh yn llawer ehangach na chaffael set o gymhwysedd mewn cymwysiadau meddalwedd, er yn amlwg, mae'r rhain yn bwysig. Mae medr TGCh yn cynnwys y dewis priodol, y defnydd a'r gwerthusiad o TGCh. Yn ei hanfod, mae angen i ddisgyblion wybod pa TGCh sydd ar gael, pryd i'w ddefnyddio a pham ei fod yn addas i'r dasg). Mae'n ceisio mesur maint y cynnydd dros amser ar gyfer holl grwpiau o ddisgyblion ar draws yr holl flynyddoedd a chyfnodau allweddol. Y fath gynnydd ydy'r pellter a deithiwyd yn nhermau cynnydd mewn gwybodaeth o TGCh, sgiliau a dealltwriaeth. Bydd hefyd yn ystyried cynnydd y dysgwr mewn perthynas â chyrhaeddiad blaenorol, yn cynnwys amrywiadau arwyddocaol rhwng grwpiau o ddysgwyr. Mae'r llinyn hefyd yn ystyried pa mor annibynnol y mae disgyblion yn eu gallu i gymhwyso ei medr TGCh.

| 8a-1 Cynnydd disgyblion mewn medrau TGCh ar draws cyfnodau allweddol | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae'r cynnydd mewn medrau TGCh yng nghyfnod allweddol ...** | | **5** | **4** | **3** | **2** | **1** | |
| sy'n cael ei gwneud gan fwyafrif y disgyblion yn | wael | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | arbennig |
| yn digwydd ar draws | ychydig agweddau o TGCh | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yr holl agweddau o TGCh |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Sut mae'r ysgol yn gwybod pa ganran o'r disgyblion sydd yn gwneud cystal ag y gallant?
- Beth ydy ystod cynnydd cyfnod allweddol disgyblion yn nhermau eu medr mewn TGCh?
- Ydy disgyblion yn gwneud cynnydd da yn holl agweddau medr mewn TGCh?
- Sut mae'r ysgol yn cofnodi ac yn defnyddio mesurau o gynnydd disgyblion?
- Sut mae medr TGCh yn cael ei asesu a'i gofnodi?

| 8a-2 Cynnydd gwahanol grwpiau mewn TGCh | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae ein gwybodaeth o'r cynnydd a wnaed gan grwpiau gwahanol o ddisgyblion yn ...** | | **5** | **4** | **3** | **2** | **1** | |
| seiliedig ar wybodaeth sy'n | minimal | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | gynhwysfawr |
| ⇨ | ansicr | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | sicr |
| yn dangos fod cynnydd rhai grwpiau | yn wael gan amlaf | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | bob amser yn dda |
| yn dangos fod cynnydd yn yr holl grwpiau yn | wael gan amlaf | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | bob amser yn dda |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Sut mae'r ysgol yn casglu ac yn cofnodi cynnydd a wneir gan wahanol grwpiau o ddisgyblion?
- Oes yna ormod o wahaniaeth yn y cynnydd ymysg gwahanol grwpiau o ddisgyblion? Sut y mesurir ac y cofnodir hyn?
- Pa mor dda ydy cynnydd grwpiau dan anfantais o'i gymharu â grwpiau eraill?
- Ydy'r disgyblion mwyaf galluog yn cael eu hymestyn?
- Oes yna gyfleoedd cynllunedig gwrdd ag anghenion y gwahanol grwpiau o ddisgyblion?

# Elfen 8 - Effaith ar ganlyniadau disgyblion

## 8a Cynnydd disgyblion mewn gallu TGCh

| 8a-3 Annibyniaeth mewn gweithio gyda TGCh | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae hunanhyder disgyblion i gymhwyso TGCh yn annibynnol ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| ar lefel sy'n | isel | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | uchel |
| yn cael ei ddangos gan | ychydig ddisgyblion | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yr holl ddisgyblion |
| yn amlwg | mewn gwersi TGCh yn unig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ar draws y cwricwlwm |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- I ba raddau mae disgyblion yn arddangos hyder mewn annibyniaeth yn eu defnydd o TGCh?
- Sut mae'r ysgol yn mesur lefelau hyder ac annibyniaeth disgyblion yn eu defnydd o TGCh?
- Pa gyfleoedd sydd yna ar gyfer disgyblion i ddatblygu eu defnydd annibynnol o TGCh?
- Ydy defnydd annibynnol o TGCh yn cael eu hadnabod yng nghynlluniau gwaith a chynllunio cwricwlwm?

**Tystiolaeth:**
Portffolio disgyblion o waith disgyblion yn dangos cymhwysiad TGCh mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Cofnodion cyrhaeddiad disgyblion. Trafodaethau gydag athrawon, a thystiolaeth arall, o amrywiaeth o ddefnydd annibynnol o TGCh mewn addysgu disgyblion. Cyfweliadau disgyblion ffurfiol ac anffurfiol. Cynlluniau gwaith, rhaglenni astudio a chynllunio cwricwlwm eraill. Cynlluniau gwaith pwnc neu adran unigol. Targedau a chofnodion achrediad. Arsylliadau gwers a monitro cofnodion.

# Elfen 8 - Effaith ar ganlyniadau disgyblion

## 8b Cynnydd ehangach disgyblion

Mae'r llinyn hwn yn ymwneud â'r cynnydd ehangach a wna disgyblion yn nhermau gwella dysgu drwy amrywiaeth eang o brofiadau TGCh ar draws y cwricwlwm. Lle mae ysgolion wedi cofleidio'n llawn botensial TGCh byddant hefyd yn ei ddefnyddio ar gyfer datblygu sgiliau dysgu ehangach y disgyblion, megis creadigedd, datrys problemau a sgiliau meddwl ac yn mewnoli'r rhain o fewn cynllunio cwricwlwm ac arfer ar gyfer yr holl ddisgyblion.

| 8b-1 Ehangder ac amrywiaeth | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae'r defnydd o TGCh i gefnogi cynnydd ehangach y disgyblion ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| yn digwydd | mewn ychydig o feysydd y cwricwlwm | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn holl feysydd y cwricwlwm |
| yn digwydd mewn amrywiaeth o gyd-destunau sydd | yn gyfyngedig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn eang iawn |
| yn digwydd | yn anghyson | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn gyson |
| yn ehangu a gwella dysgu | yn anaml | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn aml |
| yn cael effaith ar | ychydig ddisgyblion | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yr holl ddisgyblion |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- I ba raddau y mae TGCh yn ehangu a gwella addysgu ar draws y cwricwlwm?
- Sut mae'r ysgol yn sicrhau amrywiaeth eang o gyfleoedd addysgu a brofir gan ddisgyblion?
- Beth ydy amrywiaeth cyfleoedd TGCh sydd ar gael i ddisgyblion?
- Ydy'r cyfleoedd i ddefnyddio TGCh ar gael, ac yn cael eu defnyddio, yn holl feysydd y cwricwlwm?
- Sut mae'r cynllunio yn cefnogi ehangder ac amrywiaeth y cyfleoedd TGCh ar draws y cwricwlwm?

| 8b-2 Sgiliau meddwl a dysgu | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae defnydd o TGCh yn cyfrannu at ddatblygiad sgiliau meddwl a dysgu'r disgyblion ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| ar gyfer | ychydig ddisgyblion | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yr holl ddisgyblion |
| yn digwydd | yn anaml | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn aml |
| yn effeithio ar eu cynnydd | yn anaml | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn aml |
| mewn ffyrdd arloesol | yn anaml | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn aml |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- I ba raddau mae disgyblion yn defnyddio TGCh yn briodol i ddatblygu eu sgiliau addysgu?
- Sut mae'r disgyblion yn datblygu annibyniaeth a chreadigedd gyda TGCh?
- Pa gyfleoedd sydd yna i ddisgyblion i ddatblygu sgiliau meddwl drwy ddefnydd o TGCh?
- Sut y cynllunnir ac y gwerthusir ar gyfer y cyfleoedd hyn?
- Pa gyfleoedd sydd gan ddisgyblion i ddatblygu eu haddysgu gyda TGCh tu hwnt i'r ysgol?

## Elfen 8 - Effaith ar ganlyniadau disgyblion

### 8b Cynnydd ehangach disgyblion

| 8b-3 | Creadigedd | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae TGCh yn cael ei ddefnyddio i ehangu datblygiad creadigol ein disgyblion ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| yn | anaml | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | aml iawn |
| mewn | ychydig bynciau | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yr holl bynciau |
| mewn ffyrdd arloesol | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn aml |
| ac yn peri cynnydd sy’n | wael | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | eithriadol |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Pa gyfleoedd sydd gan ddisgyblion i fod yn greadigol yn eu defnydd o TGCh?
- Pa enghreifftiau all yr ysgol roi o ddisgyblion yn datblygu eu creadigedd drwy ddefnydd o TGCh?
- Pa gyfran o'r disgyblion sydd â phrofiad o TGCh sy'n eu helpu i ddatblygu eu creadigedd?
- Sut mae cynlluniau cwricwlwm yr ysgol ar gyfer TGCh yn caniatáu i ddisgyblion ddatblygu eu creadigedd ar draws yr holl bynciau?

**Tystiolaeth:**
Tystiolaeth gan athrawon am ddefnydd disgyblion o TGCh ar draws y cwricwlwm. Cofnodion cynllunio pwnc neu adran a darpariaeth. Cofnodion asesiad disgyblion. Portffoliau o waith disgyblion. Trafodaethau ffurfiol neu anffurfiol gyda disgyblion am eu profiad dosbarth gyda TGCh. Arsylliadau gwers a chofnodion monitro.

## Elfen 8 - Effaith ar ganlyniadau disgyblion

### 8c Agweddau ac ymddygiad

Mae'r llinyn hwn yn ymwneud â'r ffordd y mae defnydd rheolaidd o TGCh gan ddisgyblion yn gwella'u hagweddau at eu dysgu yn gyffredinol yn ogystal â'u cymhelliad a'u hymddygiad. Mae'n ystyried sut mae disgyblion yn dangos diddordeb, brwdfrydedd a chwilfrydedd a sut y mae'r rhain yn eu hysgogi ymchwilio i botensial TGCh yn yr ysgol a thu hwnt iddi.

| 8c-1 Agweddau at ddysgu | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae effaith TGCh ar agweddau cyffredinol ein disgyblion at ddysgu drwy welliant yn eu ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| hunan barch | ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | pob un |
| hymrwymiad a'u brwdfrydedd at ddysgu | ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | pob un |
| hymdrin ag ymchwiliad a datrys problem | ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | pob un |
| mireinio o'u gwaith | ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | pob un |
| dysgu o gamgymeriadau | ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | pob un |
| hystyriaeth feirniadol | ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | pob un |
| sylw i fanylion | ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | pob un |
| dysgu tu hwnt i ysgol | ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | pob un |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Sut mae TGCh yn cyfrannu at agweddau cadarnhaol yn eu haddysgu?
- Pa mor effeithiol y mae'r ysgol mewn adeiladu ar yr agweddau hyn i sicrhau effaith gadarnhaol ar addysgu?
- Pa gyfleoedd sydd yna i ddisgyblion ddatblygu hunan barch drwy ddefnydd o TGCh?
- Sut mae cynlluniau cwricwlwm yr ysgol yn annog disgyblion i ymchwilio, datrys problemau a mireinio eu gwaith yn feirniadol?
- Ar gyfer pa gyfran o'r disgyblion mae defnydd o TGCh wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hagwedd at addysgu?
- Sut mae'r ysgol yn mesur agweddau at addysgu tu hwnt i'r ysgol?

| 8c-2 Ymrwymiad i ddysgu | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Wrth ddefnyddio TGCh , mae ein disgyblion yn ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| cysylltu neu gydweithio gydag eraill | yn wael | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | yn dda iawn |
| dangos sensitifrwydd a pharch at waith, teimladau, gwerthoedd a chredoau eraill | yn wael | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | yn dda iawn |
| cynnal eu diddordeb a'u sylw | yn wael | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | yn dda iawn |
| dangos dyfalbarhad llwyr yn y modd y gweithiant | yn wael | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | yn dda iawn |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- I ba raddau mae TGCh yn annog cydweithio, parch ac ymddygiad da?
- Sut mae defnydd o TGCh wedi gwella ymddygiad disgyblion? Pa esiamplau all yr ysgol roi o hyn yn cael ei gyflawni'n ymarferol?
- Sut mae'r ysgol yn annog ac yn adnabod cydweithio wrth ddefnyddio TGCh?
- Sut mae'r defnydd o TGCh yn cyfrannu at wella parch at waith eraill, eu teimladau, gwerthoedd a'u cred?
- Pa dystiolaeth sydd gan yr ysgol o hyn yn cael ei weithredu'n ymarferol?

## Elfen 8 - Effaith ar ganlyniadau disgyblion

### 8c Agweddau ac ymddygiad

| 8c-3 Cymhelliad | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae gan TGCh effaith gadarnhaol ar ein disgyblion ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| cymhelliad | ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | pob un |
| canolbwyntio | ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | pob un |
| hastudio annibynnol | ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | pob un |
| hymrwymiad | ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | pob un |
| diddordeb a'u chwilfrydedd | ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | pob un |
| brwdfrydedd | ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | pob un |
| dysgu tu hwnt i'r ysgol | ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | pob un |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Sut mae defnydd o TGCh wedi gwella cymhelliad disgyblion? Pa esiamplau all yr ysgol roi o hyn yn cael ei gyflawni'n ymarferol?
- Ydy gwell cymhelliad drwy ddefnydd o TGCh wedi arwain at enillion addysgu i ddisgyblion?
- Sut mae'r ysgol yn gwybod fod defnydd y disgyblion o TGCh wedi eu symbylu i addysgu tu hwnt i'r ysgol?
- Oes yna dystiolaeth o well canolbwyntio pan fo disgyblion yn defnyddio TGCh?
- Ydy defnydd o TGCh yn ysgogi disgyblion i ymchwilio i'w defnydd o TGCh, arloesi a dysgu'n annibynnol? All yr ysgol roi esiamplau o hyn yn cael ei gyflawni'n ymarferol?

**Tystiolaeth:**
Arsylliad gwers a thrafodaethau gyda disgyblion. Logiau ymddygiad. Polisi'r ysgol ar gyfer adolygiad cwricwlwm. Polisi TGCh. Cynlluniau gwaith. Tystiolaetho newid cwricwlwm dros gyfnod o amser fel y cymer yr ysgol sylw o dechnolegau newydd neu adnoddau newydd. Tystiolaeth gan staff am agweddau disgyblion at addysgu, cymhelliad ac ymddygiad wrth ddefnyddio TGCh. Tystiolaeth newid gweithgareddau disgyblion gyda TGCh. Tystiolaeth o weithgareddau adolygiad cwricwlwm. Cofnodion cyfarfodydd llywodraethwyr. Trafodaethau gyda staff, disgyblion a rhieni/ gofalwyr. Data llwyddiannau (TASau, TGAU CGC a.y.y.b.) wedi ei gysylltu i ddefnydd disgyblion o TGCh. Cofnodion presenoldeb.